# HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD
# ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC
# 2025/26

**HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC**

**Blwyddyn**

2025/26

**Mis**

Mawrth

Ymlaen i'r dashfwrdd

## Nifer Mesurau : 29

**Cyfnod Adrodd**

**31 Mawrth 2026**

| | | |
|---|---|---|
| **0 (0.0%)** | **7 (24.1%)** | **22 (75.9%)** |

## Crynodeb o'r Prif Negeseuon

- Blaenoriaethau Gwella Cynllun y Cyngor - pob blaenoriaeth wedi ei gwblhau eleni
- Adolygiadau'r Adran - cynnydd wedi digwydd gyda rhain
- Perfformiad yr Adran yn parhau yn galonogol - dim un mesurydd yn goch erbyn diwedd y flwyddyn
- Gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu mesur bodlonrwydd cwsmer ar gyfer Meysydd/Parciau Chwarae - rhagweld bydd modd adrodd arno gychwyn flwyddyn nesaf
- Mesurydd newydd ar gyfer gwasanaeth Cytundeb yr A55 yn cael ei ddatblygu

## HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

| Blwyddyn | Mis diweddaraf | Mis diwethaf |
|---|---|---|
| 2025/26 | Mawrth | Chwefror |

### Adrannol
Mis diwethaf 72.0%

**72.5%**

PP-01 : Canran staff sydd wedi cwblhau'r 8 teitl mandadol (cronnus)

**Steffan Jones**

### Adrannol
Mis diwethaf 97.7%

**97.8%**

PP-02 : Canran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi ateb o fewn 20 dydd (cronnus)

**Steffan Jones**

### Adrannol
Mis diwethaf 10.78

**11.89**

PP-03 : Nifer dyddiau salwch fesul person Cyfwerth Llawn Amser (cronnus)

**Steffan Jones**

### Adrannol
Mis diwethaf 97.2%

**97.7%**

PP-04 : Canran staff gyda Asesiad Iaith (cronnus)

**Steffan Jones**

### Cynnal Priffyrdd
Mis diwethaf 90.9%

**87.9%**

PP-05 : Canran diffygion critigol wedi eu gwneud yn saff o fewn 2 awr

**Gareth Roberts**

### Cynnal Priffyrdd
Mis diwethaf 74.9%

**84.1%**

PP-06 : Canran diffygion diogelwch wedi eu gwneud yn saff o fewn y targed

**Gareth Roberts**

### Cynnal Priffyrdd
Mis diwethaf 9.8

**3.2**

PP-07 : Cyfartaledd dyddiau i ymateb i gŵyn twll mewn ffordd

**Adrian Wyn Williams**

### Cynnal Priffyrdd
Blwyddyn diwethaf 10.1%

**9.7%**

PP-08 : Canran ffyrdd Dosbarth A, B a C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)

**Ian Morgan**

### Goleuo Stryd
Mis diwethaf 2.7

**2.8**

PP-09 : Nifer dyddiau ar gyfartaledd i atgyweirio lamp stryd

**Colin Worth**

### Goleuo Stryd
Mis diwethaf Ar drac

**Ar drac**

PP-10 : Defnydd egni lampau stryd

**Colin Worth**

---

- Gwyrdd: Perfformiad yn cadw o fewn amrediad disgwyliedig a dim pryder am ein perfformiad
- Melyn: Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio yn is na'r amrediad disgwyliedig a chamau ar y gweill i adfer y sefyllfa / gwella perfformiad
- Coch: Perfformiad wedi dirywio o'r amrediad disgwyliedig a camau pendant yn digwydd i adfer y sefyllfa/perfformiad

# HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

**Blwyddyn:** 2025/26 | **Mis diweddaraf:** Mawrth | **Mis diwethaf:** Chwefror

## Goleuo Stryd

Mis diwethaf 100.0%

**100.0%**

PP-11 : Canran archwiliadau colofnau wedi eu cwblhau (cronnus)

**Colin Worth**

## Fflyd

Mis diwethaf 97.5%

**99.4%**

PP-12 : Canran archwiliadau diogelwch rhaglenedig wedi eu cwblhau

**Kev Sheret**

## Fflyd

Mis diwethaf 39.6%

**39.6%**

PP-13 : Canran ceir a faniau'r Cyngor sydd yn gerbydau "gwyrdd"

**Kev Sheret**

## Fflyd

Mis diwethaf 91.1%

**86.6%**

PP-14 : Canran oriau cynhyrchiol yn y gweithdai

**Kev Sheret**

## Fflyd

Mis diwethaf 84.6%

**100.0%**

PP-15 : Canran ceisiadau gwaith wedi ateb o fewn 1 awr

**Kev Sheret**

## Fflyd

Mis diwethaf 88.9%

**100.0%**

PP-16 : Canran cerbydau trwm sydd yn pasio eu prawf MOT

**Kev Sheret**

## Edrychiad Stryd

Mis diwethaf 0.8

**0.7**

PP-17 : Nifer achosion tipio anghyfreithlon fesul 1,000 o boblogaeth Gwynedd

**Steven Edwards**

## Edrychiad Stryd

Mis diwethaf 1.8

**2.3**

PP-18 : Nifer dyddiau ar gyfartaledd i gwblhau i ymholiad Baw Cŵn

**Steven Edwards**

## Edrychiad Stryd

Blwyddyn diwethaf 71.0%

**71.3%**

PP-19 : Canran Hysbysiadau Cosb Penodedig wedi cael eu talu

**Steven Edwards**

## Edrychiad Stryd

Mis diwethaf 93

**90**

PP-20 : Nifer ceisiadau gwaith i'r Tîm Tacluso

**Steven Edwards**

---

- Gwyrdd: Perfformiad yn cadw o fewn amrediad disgwyliedig a dim pryder am ein perfformiad
- Melyn: Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio yn is na'r amrediad disgwyliedig a chamau ar y gweill i adfer y sefyllfa / gwella perfformiad
- Coch: Perfformiad wedi dirywio o'r amrediad disgwyliedig a camau pendant yn digwydd i adfer y sefyllfa/perfformiad

# HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis diweddaraf** Mawrth

**Mis diwethaf** Chwefror

### Toiledau Cyhoeddus

Mis diwethaf 1.4

4.3

PP-21 : Nifer dyddiau ar gyfartaledd i gwblhau ymholiad Toiledau Cyhoeddus

**Amanda Murray**

### Meysydd Chwarae

Datblygu Mesur

**Amanda Murray**

### Adeiladau ac Isadeiledd

Mis diwethaf Ar drac

Cwblhawyd

YGC-23 : Cwrdd âtharged ariannol yr Uned Adeiladu

**Gareth Lloyd Wright**

### Busnes a Chyflawni Prosiect

Mis diwethaf Ar drac

Cwblhawyd

YGC-24 : Cwrdd â tharged ariannol YGC gyfan

**Rhys Wynn Williams**

### Busnes a Chyflawni Prosiect

Mis diwethaf 9.4

9.1

YGC-25 : Sgôr allan o 10 ar gyfer Bodlonrwydd Cwsmer

**Sion Arwel Jones**

### Dŵr ac Amgylchedd

Blwyddyn diwethaf 76.2%

82.5%

YGC-26 : Canran yr asedau sydd mewn cyflwr boddhaol neu well

**Rob Williams**

### Dŵr ac Amgylchedd

Mis diwethaf 77.6%

80.3%

YGC-27 : Canran ceisiadau SDC wedi derbyn penderfyniad o fewn y traged (cronnus)

**Rob Williams**

### Dŵr ac Amgylchedd

Mis diwethaf Monitro

Monitro

YGC-28 : Cynlluniau Llifogydd wedi eu cwblhau

**Rob Williams**

### Gwasanaeth Dechnegol

Mesur parhaol

90.7%

YGC-29 : Canran strwythurau mewn cyflwr boddhaol neu well (BCI Cyflwr Derbyniol)

**Owen Rhys Jones**

### Gwasanaeth Dechnegol

Blwyddyn diwethaf 100.0%

100.0%

YGC-30 : Canran o'r archwiliadau pontydd ffyrdd wedi eu cwblhau (cronnus)

**Owen Rhys Jones**

---

Perfformiad yn cadw o fewn amrediad disgwyliedig a dim pryder am ein perfformiad

Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio yn is na'r amrediad disgwyliedig a chamau ar y gweill i adfer y sefyllfa / gwella perfformiad

Perfformiad wedi dirywio o'r amrediad disgwyliedig a camau pendant yn digwydd i adfer y sefyllfa/perfformiad

## UNED REOLI - STEFFAN JONES


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-01 : Canran staff sydd wedi cwblhau'r 8 teitl mandadol

### Canran staff wedi cwblhau gwahanol deitlau mandadol fesul mis




### Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r graff yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi yn y nifer o staff sydd wedi cwblhau'r teitlau mandadol o fewn yr Adran dros y flwyddyn.

Mae gwaith wedi digwydd i annog staff i gwblhau'r teitlau cyn gynted a phosibl. Wedi dweud hyn mae heriau o ran y staff rheng flaen i gael mynediad at y modiwlau ar hunan wasanaeth gan nad oes ganddynt gyfeiriadau e-bost.

Trafodaethau wedi digwydd gyda'r Swyddog Hyrwyddo Diogelu Corfforaethol - mae fersiwn fideo o'r teitl Diogelu wedi cael ei gynhyrchu fydd sicr yn helpu ni gyrraedd y staff rheng flaen yn haws.

| Teitl | Canran wedi cwblhau |
|---|---|
| Cam-drin domestig | 79.2% |
| Diogelu Data | 75.6% |
| Diogelu | 75.3% |
| Atal | 74.9% |
| Iechyd a Diogelwch | 74.0% |
| Cydraddoldeb | 73.5% |
| Ymwybyddiaeth Iaith | 71.5% |
| Rhyddid Gwybodaeth | 55.7% |

## UNED REOLI - STEFFAN JONES

**Blwyddyn**


2025/26

**Mis**

Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-02 : Canran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi eu ateb o fewn 20 dydd




**Tu ôl i'r perfformiad**

Mae'r Adran wedi derbyn **93 cais** Rhyddid Gwybodaeth yn ystod 2025/26. Ac eithrio mis Ebrill mae'r Adran wedi llwyddo i ateb pob cais rhyddid gwybodaeth o fewn 20 dydd. Roedd dau gais yn hwyr ym mis Ebrill.

Mae’r ganran ateb o fewn 20 dydd yn **97.8%** ar gyfer y flwyddyn.

Mae perfformiad yr adran yn sicr wedi gwella o’r perfformiad ar gyfer 2024/25 pan lwyddwyd i ateb 87.9% yn unig o’r ceisiadau o fewn yr 20 dydd.

Mae'r ceisiadau ar y cyfan wedi cynnwys ceisiadau yn holi am nifer tyllau mewn ffordd, gwybodaeth am ffyrdd oedd wedi cael eu cau, gwybodaeth am waith ar gylchfannau, nifer cwynion am fflagiau, gwybodaeth am Hysbysiadau Cosb Penodedig. Byddwn yn edrych i weld ydi data rhai o'r ymholiadau rheolaidd yn briodol i'w rannu ar wefan Data Agored y Cyngor. Bydd hyn yn ei dro gobeithio yn lleihau baich ar swyddogion.


## UNED REOLI - STEFFAN JONES

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-03 : Nifer dyddiau salwch fesul person Cyfwerth Llawn Amser




**Tu ôl i'r perfformiad**

Ar gyfer 2025/26 mae salwch yr Adran ar gyfartaledd fesul person cyfwerth llawn amser yn 11.89 dydd.

Mae lefelau salwch eleni yn uwch nac oeddynt ar gyfer llynedd. Wedi dweud hyn mae ffigyrau'r Adran eleni yn dilyn patrwm hynod o debyg i'r un ar gyfer y Cyngor cyfan.

Ffigwr ar gyfer y Cyngor cyfan erbyn diwedd y flwyddyn oedd **13.01** dydd, felly perfformiad yr Adran yn well ar **11.89 dydd.**

Mae'r Adran wedi cael nifer o achosion salwch hir-dymor (cyfnod parhaus o 28 dydd neu fwy) eleni sydd yn gwthio ein nifer dyddiau cyfartalog i fyny. Mae cyfran y salwch tymor hir o gwmpas y **65%** o'r holl salwch yn yr Adran eleni.

Adran wedi bod yn gosod pamffeldi gwybodaeth amrywiol am gefnogaeth sydd ar gael gyda materion iechyd o gwmpas y swyddfeydd a'r Depos. Trafodaethau yn digwydd gyda Byw'n Iach er mwyn cyd-weithio i gynnig sesiynau ymarfer i'n gweithwyr.

## UNED REOLI - STEFFAN JONES

**Blwyddyn**: 2025/26


**Mis**: Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd


## PP-04 : Canran staff gyda Asesiad Iaith

| Cyfanswm Staff | Hunanasesiad | Asesiad Rheolwr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 432 | 272 | 150 | 422 |
| Heb Asesiad 10 | 63.0% | 34.7% | 97.7% |

**Lefel Cyfartalog**




**Nifer staff yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd (ddim yn cynnwys rhai heb asesiad)**




### Tu ôl i'r perfformiad

- Mae'r Adran yn cyflogi 432 o staff.
- Mae 272 o'r staff wedi cwblhau'r Hunanasesiad Iaith sef 63.0%.
- Ar gyfer 150 pellach o'r gweithlu (rheng flaen), mae'r rheolwyr llinell wedi cwblhau asesiad ar eu rhan.
- Mae hyn yn gadael 10 sydd heb asesiad iaith o gwbl.
- Mae **97.9%** o'r staff yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd.
- Mae 9 aelod o staff nad ydyn nhw'n cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. O rhain mae 2 yn derbyn hyfforddiant iaith ar hyn o bryd.

Rydym yn cefnogi ein staff i fynychu hyfforddiant perthnasol, gweler isod gofnod o'r niferoedd sydd wedi dilyn hyfforddiant eleni.

- 1 x Cwrs Mynediad 2
- 1 x Cwrs Canolradd 2 – Dysgu Cymru
- 1 x Cwrs 'Defnyddio' Cymraeg Gwaith Uwch – Nant Gwrtheyrn
- 1 x Cwrs Magu Hyder

Mae'r Uned Fusnes yn hysbysebu staff pan fydd cyrsiau ar gael ac yn cefnogi unrhyw unigolyn fyddai'n dymuno mynychu. Mae nodyn atgoffa yn mynd allan ar gyfer yr 10 sydd heb asesiad o gwbl.

# GWASANAETH CYNNAL PRIFFYRDD - GARETH ROBERTS

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddi-rwystr

**Blwyddyn** 2025/26


**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd


## PP-05 : Canran y diffygion critigol sydd yn cael eu gwneud yn saff o fewn 2 awr

### Nifer diffygion critigol

2025/26
**444**




### Canran diffygion critigol wedi eu gwneud yn saff o fewn 2 awr




### Tu ôl i'r perfformiad

**Diffyg Critigol:** Y targed ymateb i'r math yma o ddiffyg ydi o fewn 2 awr.

Mae diffyg critigol yn sefyllfa lle mae'r swyddog archwilio yn ystyried y risg i ddiogelwch yn ddigon uchel i fod angen sylw ar unwaith megis caeden wedi syrthio, caead ar goll. Dyma enghreifftiau o ddiffygion critigol mae'r gwasanaeth wedi delio gyda nhw eleni.





Cafwyd 444 diffyg critigol yn ystod 2025/26 sydd 20 yn llai nac yn 2024/25. Mae niferoedd y diffygion yn dilyn patrymau tymhorol gyda mwy o ddiffygion i'w gweld yn ystod tymor y gaeaf.

Allan o'r 444 diffyg, cafodd:

- **358 (80.6%)** eu gwneud yn saff o fewn dwy awr
- **86 (19.4%)** eu gwneud yn saff ar ôl dwy awr

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddi-rwystr

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth


Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-06 : Canran y diffygion diogelwch sydd yn cael eu gwneud yn saff o fewn y targed amser

### Nifer diffygion diogelwch


2025/26
**4,443**

Blwyddyn ● 2024/25 ● 2025/26




### Canran diffygion diogelwch wedi eu gwneud yn saff o fewn y targed amser

Blwyddyn ● 2025/26




### Tu ôl i'r perfformiad

**Diffyg Diogelwch**: Ymateb cyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.

Mae diffyg diogelwch yn geisiadau am wasanaeth neu ddiffygion sy'n gofyn am ymateb cyn gynted â phosib er mwyn cael gwared ar risg bosib o anaf i ddefnyddwyr. Dyma enghreifftiau o ddiffygion diogelwch mae'r gwasanaeth wedi delio gyda nhw eleni.





Cafwyd 4,443 diffyg diogelwch yn ystod 2025/26 sydd 466 yn fwy nac yn 2024/25. Gwelwn fod patrwm tymhorol i'r nifer diffygion, gyda mwy yn digwydd yn ystod y gaeaf.

Allan o'r 4,443 diffyg, cafodd

- **3,359 (75.6%)** eu gwneud yn saff o fewn y targed amser
- **1,084 (24.4%)**) eu gwneud yn saff ar ôl y targed ymateb

Mae nifer o'r gweithlu yn derbyn eu gwaith drwy dabledi, sy'n hwyluso'r drefn o dderbyn a chau tasgau sy'n ffordd fwy effeithiol o weithio. Mae'r newidiadau o ganlyniad i fabwysiadu'r drefn electronig yma'n dechrau dangos yn yr ystadegau, a disgwylir gweld cynnydd fel mae pob ardal yn gwneud defnydd llawn o'r tabledi.

**GWASANAETH CYNNAL PRIFFYRDD - ADRIAN WYN WILLIAMS**

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddi-rwystr

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth


Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-07 : Cyfartaledd dyddiau i ymateb i gŵyn twll mewn ffordd

### Nifer ceisiadau "Twll mewn Ffordd"

**Blwyddyn** ● 2024/25 ▲ 2025/26

| 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|
| **886** | **1,016** |




**Tu ôl i'r perfformiad**

Mae'r graff llinell yn cymharu'r niferoedd o gwynion “twll mewn ffordd” sydd wedi eu derbyn drwy system FFOS.

Mae nifer y cwynion sydd wedi eu derbyn eleni wedi cynyddu o 130 o'i gymharu â niferoedd 2024/25.

Ar gyfer y flwyddyn roedd cyfartaledd y dyddiau i gwblhau ymholiad yn 24 dydd. Mae perfformiad y gwasanaeth wedi gwella dros y flwyddyn ac erbyn mis Mawrth 2026 roedd y nifer dyddiau roedd cwsmer yn **aros am ymateb wedi gostwng i 3.2 dydd.**

Mae hyn yn deillio o hyfforddiant gafwyd ar y system Ffos ar gyfer arolygwyr ffyrdd, ynghŷd â mwy o ddefnydd o dabledi ganddynt i ymateb yn uniongyrchol o'r safle gwaith. Mae hyn wedi arwain at atebion gwell ac amserol i gwsmeriaid am sefyllfa eu ceisiadau am wasanaeth. Bydd y gwaith o gyflwyno tabledi yn cael ei ehangu ar draws y gwasanaeth fydd yn sicrhau gwelliant pellach i'r perfformiad.

**GWASANAETH CYNNAL PRIFFYRDD - IAN MORGAN**

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddi-rwystr


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth


Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-08 : Canran ein ffyrdd Dosbarth A, B a C sydd mewn cyflwr gwael


**Cyflwr Ffyrdd Dosbarth A**




**Cyflwr Ffyrdd Dosbarth B**




**Cyflwr Ffyrdd Dosbarth C**




Cyfanswm canran ein ffyrdd A, B a C sydd mewn cyflwr drwg

**9.7%**

A = 4.2% (27km)
B = 5.2% (21km)
C = 13.2% (228km)

**Tu ôl i'r perfformiad**

Mae'r graffiau yn dangos canlyniadau profion technegol ar ein ffyrdd Dosbarth A, B a C, sydd yn cael eu cayflawni gan gwmni WDM ar ran y Cyngor.
**Gwyrdd** = Ffordd, yn gyffredinol, mewn cyflwr da, dim diffygion angen archwiliadau pellach.
**Ambr** = Ffordd yn arddangos diffygion angen archwiliad yn fuan i adnabod gwaith trwsio addas
**Coch** = Cyflwr yn ffordd yn gyffredinol wael a bydd yn debygol o fod angen gwaith cynnal arfaethedig yn fuan.

Ystyrir bod cadw canran ein ffyrdd mewn cyflwr coch o dan 8% yn dderbyniol.

Fe welwch bod canrannau ein ffyrdd o fewn y gwyrdd wedi gostwng rhwng 2021/22 a 2024/25 er y buddsoddiad cyfalaf mae'r Cyngor wedi ei wneud ynddynt. Bu gostyngiad o bron i 11% ar ei'n ffyrdd Dosbarth A, 15% ar ei'n ffyrdd Dosbarth B a 4.5% ar ei'n ffyrdd Dosbarth C dros y cyfnod. Ond fel y gwelwch, mae canlyniadau 2025/26 i weld yn dangos bod y dirywiad graddol hwnnw o fewn y ffyrdd Dosbarth A a B bellach wedi ei nadu, a'r ffyrdd Dosbarth C yn aros yn gyson. Rydym yn hyderus bydd y gwellhad mewn cyflwr ei'n ffyrdd yn parhau o ganlyniad i fuddsoddiad arian Menter Benthyca Llywodraeth Leol dros 2025/26 a 2026/27.

Yn hanesyddol dim ond gwybodaeth o ganlyniad i'r archwiliadau diogelwch oedd gan y Gwasanaeth fel cofnod o gyflwr ein ffyrdd Di-ddosbarth. Mae'r Gwasanaeth wedi penderfynu parhau gyda system technoleg "AI" i ddadansoddi gwybodaeth sydd yn cael ei gasglu gan gymryd fideo o'r ffyrdd wrth i'r arolygwr gynnal archwiliad. Bydd hyn yn ei'n cynorthwyo i gadw cofnod o'r gwellhad mewn cyflwr ffyrdd di-ddosbarth o ganlyniad i fuddsoddiad y Menter Benthyca Llywodraeth Leol.

## GWASANAETH GOLEUO - COLIN WORTH

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Galluogi'r cyhoedd deimlo yn saff ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus Gwynedd drwy gynnal a chadw unedau goleuo, arwyddion golau a goleuadau traffig.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-09 : Nifer y dyddiau ar gyfartaledd i atgyweirio lamp stryd

### Nifer y dyddiau ar gyfartaledd i atgyweirio lamp stryd




| Mis | Nifer diffygion |
|---|---|
| Ebrill | 177 |
| Mai | 181 |
| Mehefin | 136 |
| Gorffennaf | 202 |
| Awst | 272 |
| Medi | 188 |
| Hydref | 386 |
| Tachwedd | 739 |
| Rhagfyr | 506 |
| Ionawr | 586 |
| Chwefror | 537 |
| Mawrth | 498 |
| **Cyfanswm** | **4,408** |

### Tu ôl i'r perfformiad

Targed y gwasanaeth ar gyfer atgyweirio lamp stryd ydi 5 diwrnod.

Ar gyfer 2025/26, roedd yr amser ar gyfartaledd i atgyweirio lamp stryd yn 2.8 diwrnod.

Yn ystod mis Mawrth roedd Scottish Power yn gyfrifol am atgyweirio 20 diffyg arall. O rhain maent wedi cwblhau 5 ohonynt mewn 22 dydd ar gyfartaledd.

Mae'r 15 diffyg arall yn parhau heb eu hatgyweirio ganddynt.

I daclo'r sefyllfa gyda Scottish Power mae Gwynedd fel rhan o Grŵp Goleuo Gogledd Cymru wedi bod yn trafod sut i roi pwysau ar Scottish Power. Mae Sir Y Fflint yn cydweithio gyda ni bellach i roi pwysau ar y cwmni i ymweld â'r safle yn gynt fel ein bod yn gallu osgoi rhoi eithriadau ar y gwaith sydd yn achosi iddynt fethu cwblhau gwaith o fewn y targed.

## GWASANAETH GOLEUO - COLIN WORTH


**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Galluogi'r cyhoedd deimlo yn saff ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus Gwynedd drwy gynnal a chadw unedau goleuo, arwyddion golau a goleuadau traffig.

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-10 : Defnydd egni lampau stryd (kWh)




**Tu ôl i'r perfformiad**

Yn ystod 2025/26 mae defnydd egni goleuadau stryd ac arwyddion ffyrdd yn eithaf sefydlog fel y disgwylir ac yn dilyn patrwm tymhorol.

Ers mabwysiadu y cyn gefnffordd mae nifer sylweddol o asedau goleuo stryd wedi trosglwyddo i'n meddiant ni ac felly yn egluro'r defnydd ychydig uwch o egni o'i gymharu â 2024/25.

Mae datblygiadau tai yn cymryd lle mewn unrhyw flwyddyn a bydd hyd y ffordd ac unrhyw ased yn trosglwyddo i gyfrifoldeb cynnal a chadw ein gwasanaethau. Ers Ebrill 2025 yn y gwasanaeth Goleuo rydym wedi mabwysiadu 64 ased newydd.

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Galluogi'r cyhoedd deimlo yn saff ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus Gwynedd drwy gynnal a chadw unedau goleuo, arwyddion golau a goleuadau traffig.

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-11 : Canran o'r Rhaglen Archwilio wedi ei chwblhau

| Ardal | Nifer Colofnau angen archwiliad | Nifer wedi cwblhau | % wedi cwblhau |
|---|---|---|---|
| Arfon | 1,243 | 1,243 | 100.0% |
| Dwyfor | 742 | 742 | 100.0% |
| Meirionnydd | 461 | 461 | 100.0% |
| **Gwynedd** | **2,446** | **2,446** | **100.0%** |

**Tu ôl i'r perfformiad**

Mae holl archwiliadau rhaglenedig 2025/26 wedi eu cwblhau sef cyfanswm o 2,446.

O'r 2,446 archwiliad cafwyd

- 25 diffyg yn Arfon
- 5 diffyg yn Dwyfor
- 3 diffyg yn Meirionnydd

Mae archwiliadau lampau stryd yn parhau i gael eu cynnal yn unol â'r rhaglen waith, ac rydym wedi llwyddo i gwblhau'r hyn oedd yn ymarferol o fewn y gyllideb sydd ar gael eleni. Mae'r diffygion critigol a nodwyd yn ystod yr archwiliadau hyn wedi'u trin a'u datrys, gan sicrhau nad oes unrhyw risgiau diogelwch uniongyrchol yn parhau.

Fodd bynnag, mae gan y gwasanaeth ôl-groniad sylweddol o archwiliadau sydd heb eu cwblhau. Mae hyn yn deillio'n bennaf o'r ffaith nad oes digon o gyllideb ar gael i gwmpasu'r holl waith angenrheidiol, yn enwedig wrth ystyried cynnydd mewn costau cynnal a chadw a'r galw cynyddol am waith adfer.

Mae'r sefyllfa hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau cyllid ychwanegol neu ddulliau cyflawni gwahanol er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gadw i fyny â'r gofynion statudol a gweithredol sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw goleuadau stryd.

## GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.


**Blwyddyn**: 2025/26

**Mis**: Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## Cyfanswm Fflyd y Cyngor

### Cyfanswm Fflyd y Cyngor fesul Adran




| Adran | Cyfanswm Fflyd | Wedi ariannu | Heb ariannu | Wedi adnewyddu | Wedi hurio |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 41 | 9 | 31 | 1 | 0 |
| Amgylchedd | 135 | 103 | 2 | 18 | 12 |
| Cyllid | 6 | 0 | 4 | 1 | 1 |
| Economi a Chymuned | 15 | 11 | 3 | 1 | 0 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 35 | 24 | 9 | 1 | 1 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 25 | 4 | 17 | 3 | 1 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 237 | 194 | 7 | 11 | 25 |
| Tai ac Eiddo | 27 | 25 | 0 | 2 | 0 |
| Tim Arweinyddiaeth a Cyfreithiol | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **522** | **371** | **73** | **38** | **40** |

### Tu ôl i'r perfformiad

Gwybodaeth yma i roi cyd-destun ar sefyllfa fflyd y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Erbyn hyn mae:-

- 522 o gerbydau yn rhan o Fflyd y Cyngor, gyda 71.1% wedi eu gosod ar gynlluniau ariannu i'r dyfodol.
- 73 (14.0%) yn cael eu hunan gyllido o fewn gwasanaethau.
- 38 (7.3%) o gerbydau yn parhau yn rhan o’r Fflyd er bod cerbyd newydd wedi ei ddarparu.
- 40 (7.7%) o gerbydau wedi eu hurio gan wasanaethau'r Cyngor.

Mae papur wedi ei roi at ei gilydd gan y Rheolwyr Fflyd i fynd i’r afael a’r cerbydau ychwanegol â welir mewn gwasanaethau. Mae trafodaethau cychwynnol wedi cymryd lle gyda’r Adran Gyllid gyda’r bwriad hir-dymor i reolaeth lawn o gerbydau drosglwyddo i’r Gwasanaeth Fflyd.

## GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.

**Blwyddyn** 2025/26


**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## Defnydd Tanwydd Fflyd y Cyngor

**Defnydd Tanwydd (litrau)**

| 1,625,597 | 1,669,790 | 1,567,265 |
|---|---|---|
| Cyfanswm 2023/24 | Cyfanswm 2024/25 | Cyfanswm 2025/26 |




**Tu ôl i'r perfformiad**

Gwybodaeth yma i roi cyd-destun ar sefyllfa defnydd tanwydd fflyd y Cyngor.

O gymharu 2024/25 gyda 2025/26 rydym wedi gweld gostyngiad o 6.1% yn ein defnydd o danwydd.

Mae hyn yn gyfatebol i 102,525 litr yn llai o danwydd sydd gyfwerth i tua £155,049 ar brisiau heddiw.

Gwelir y gostyngiad yma o ganlyniad i ddau brif reswm. Yn gyntaf, trosglwyddiad nifer o gerbydau o rhai tanwydd traddodiadol i rai trydan. Yn ail, tywydd ffafriol sydd yn golygu llai o ddefnydd o gerbydau graeanu ac ati yn ystod y flwyddyn.

Noder, nid yw'r ffigyrau uchod yn cynnwys unrhyw deithiau fflyd lwyd a wneir gan y Cyngor. Nid yw'r Gwasanaeth Fflyd yn gyfrifol am y teithiau yma. Ymhellach nid yw'n cynnwys pryniant o betrol i offer drwy gardiau tanwydd.

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-12 : Canran archwiliadau diogelwch rhaglenedig sydd wedi eu cwblhau

| Mis | Nifer archwiliadau diogelwch i'w cwblhau | Nifer wedi cwblhau | Fel canran |
|---|---|---|---|
| Hydref | 167 | 165 | 98.8% |
| Tachwedd | 169 | 162 | 95.9% |
| Rhagfyr | 178 | 170 | 95.5% |
| Ionawr | 176 | 174 | 98.9% |
| Chwefror | 159 | 155 | 97.5% |
| Mawrth | 177 | 176 | 99.4% |
| **Cyfanswm** | **1,026** | **1,002** | **97.7%** |

| Rheswm | Nifer achosion |
|---|---|
| Cerbyd oddi ar y ffordd | 5 |
| Heb drefnu apwyntiad | 13 |
| Heb droi fyny i apwyntiad | 6 |
| **Cyfanswm wedi methu apwyntiad** | **24** |

**Tu ôl i'r perfformiad**
Fel rhan o drefniadau cynnal a chadw cerbydau’r Cyngor, mae'r gweithdai yn gyfrifol am gynnal archwiliadau diogelwch rheolaidd ar y cerbydau. Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae'r Gwasanaeth Fflyd wedi cyflwyno trefn newydd i hysbysu a threfnu apwyntiadau. Mae’n ofyn statudol ar y Gwasanaeth Fflyd i gwblhau archwiliadau ar y cerbydau o fewn wythnos gwaith. Mae’r mesur yma yn mynd ymhellach na’n gofynion statudol ac yn edrych ar berfformiad y gweithdy i gwblhau o fewn diwrnod.

Gwelir o’r ffigyrau yma'r nifer o archwiliadau yr oedd disgwyl i’r gweithdai gwblhau yn ogystal â'r canran sydd wedi eu cwblhau ar amser.

Ni fu’n bosib cwblhau pob archwiliad oherwydd rhesymau â nodir yn y tabl ar y dde uchod.

Pan fydd cerbydau yn methu apwyntiadau bydd y Gwasanaeth Fflyd yn gorfod ail drefnu apwyntiadau gyda’r gwasanaeth perthnasol sydd yn creu anhawsterau i’r gweithdai.

Os na fydd gwasanaeth yn cyflwyno'r cerbyd i’r gweithdai, fe all y Gwasanaeth Fflyd atal y gwasanaeth rhag defnyddio’r cerbyd.

Un o'r rhesymau ar gyfer y methiannau dros y gaeaf ydi cerbydau graeanu wedi methu archwiliad oherwydd eu bod allan am 24 awr yn ystod y cyfnod. Dylid nodi fod yr archwiliadau sydd wedi eu methu yn cael eu cwblhau ar y cyfle cyntaf posibl.

## GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-13 : Canran ceir a faniau'r Cyngor sydd yn gerbydau "gwyrdd"

**Canran Ceir a Faniau'r y Cyngor sydd yn gerbydau "gwyrdd", fesul Adran**




| Gwasanaeth o fewn Adran PPYGC | Trydan | Petrol Hybrid | "ICE" | % Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Goleuo | 1 | 2 | 1 | 75.0% |
| Gwasanaeth Fflyd | 5 | 0 | 3 | 62.5% |
| Gwasanaethau Edrychiad Stryd | 10 | 0 | 6 | 62.5% |
| Priffyrdd | 6 | 0 | 10 | 37.5% |
| Asedau Bwrdeistrefol | 4 | 0 | 7 | 36.4% |
| YGC | 4 | 1 | 14 | 26.3% |
| Cynnal Tiroedd | 1 | 0 | 4 | 20.0% |
| Gwywiad yr Onnen | 0 | 0 | 1 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **31** | **3** | **46** | **42.5%** |

**Tu ôl i'r perfformiad**
Mesur i ddangos beth ydi sefyllfa’r Cyngor o ran symud i gerbydau gwyrdd. Mae gan Llywodraeth Cymru darged o 100% erbyn y flwyddyn 2030. Adroddwyd gan y Gwasanaeth Ynni (Llywodraeth Cymru), bod Cyngor Gwynedd gyda’r **ail nifer fwyaf o gerbydau gwyrdd** yn ei fflyd wrth gymharu gyda cynghorau gwledig yn Nghymru. Bydd y Gwasanaeth Fflyd yn parhau ar y rhaglen o adnewyddu cerbydau am rai gwyrdd pan fo’r isadeiledd yn caniatáu.

**Cyngor Cyfan**
89 (40%) o'r 225 car neu fan bellach yn rhai gwyrdd (trydan neu hybrid).
O'r 136 o gerbydau disel/petrol sydd yn weddill mae 57 ohonynt yn gerbydau sydd unai wedi eu hadnewyddu a’u cadw ymlaen, yn rhai sydd wedi eu hurio neu sydd heb gynlluniau ariannu ar eu cyfer.

**Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC**
Mae 34 (43%) o'r 80 car neu fan yn rhai gwyrdd (trydan neu hybrid).
O'r 46 cerbyd disel/petrol sydd yn weddill mae 26 (59%) ohonynt yn gerbydau sydd unai wedi eu hadnewyddu a’u cadw ymlaen, yn rhai sydd wedi eu hurio neu sydd heb gynlluniau ariannu ar eu cyfer.

## GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET


**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-14 : Canran oriau cynhyrchiol y gweithdai




### Tu ôl i'r perfformiad

Mae cynhyrchiant y gweithdai yn cymharu'r amser a gofnodwyd yn gweithio ar gerbydau yn erbyn y nifer o oriau a oedd yr unigolion ar gael. Mae'r mesur yma yn cynnig asesiad sy'n canolbwyntio ar y sut mae'r gweithlu yn defnyddio ei amser.

Er mwyn sicrhau bod y gweithdai yn gost effeithiol, rydym yn anelu at gyfradd o 86.5% yn y nifer o oriau cynhyrchiol. Rydym wedi cyrraedd y targed yma eleni gyda 87.0%.

Adroddwyd y wybodaeth yma yn fisol i Dîm Rheoli'r Gweithdai ble rydym yna yn adnabod cyfleoedd i wellau ein perfformiad. Fe ellir hyn fod yn symud gwaith o un gweithdy i llall, neu adnabod cyfleoedd o du allan i'r Cyngor i ddod ac incwm i mewn.

Wrth i ni drawsnewid y fflyd i gerbydau gwyrdd, rydym yn cychwyn gweld y galw ar y gweithdai yn lleihau. Mae hyn am gael effaith negyddol ar waith y gweithdai a'i gallu i gyrraedd y lefel disgwyliedig. Mae'r Gwasanaeth yn monitro'r sefyllfa yma ac yn edrych ar opsiynau i leihau'r risg.

## GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-15 : Canran ceisiadau wedi ateb o fewn y targed

**Nifer munudau i gwblhau cais am wasanaeth**




**156**
Nifer Ceisiadau

**87.8%**
Canran wedi ateb o fewn targed

**Tu ôl i'r perfformiad**

Yma dangosir nifer y munudau mae'r gwasanaeth yn gymryd i gwblhau cais am wasanaeth.

Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau i gael:
- Hurio cerbydau
- Mynediad i danwydd
- Ychwanegu gyrwyr i'r gofrestr
- Ceisiadau hyfforddiant
- Mynediad i systemau Fflyd

Mae gennym darged i gwblhau rhain **o fewn 1 awr** o dderbyn y cais.
Yn ystod 2025/26 rydym wedi llwyddo i gwblhau **87.8%** o'r ceisiadau o fewn yr awr.

Mae'r mwyafrif o geisiadau sydd heb eu cwblhau o fewn yr awr yn geisiadau i hurio cerbydau. Fel rheol mae'r rhain yn cymryd fwy o amser, yn enwedig pan fydd angen ffeindio cerbyd arbenigol.

## GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-16 : Canran cerbydau trwm y Cyngor sydd yn pasio eu prawf MOT

**Canran cerbydau trwm yn pasio prawf MOT**




**93.3%**
Canran cerbydau wedi pasio prawf MOT ers 1af Ebrill 2025

**Tu ôl i'r perfformiad**

Mae'r mesur yma yn dangos y nifer o brofion MOT sydd wedi eu cynnal ar gerbydau trwm y Cyngor a'r canran sydd wedi pasio y tro cyntaf.

Mae profion MOT ar gerbydau trwm yn cael eu cynnal gan y DVSA ac mae'r mesur yma yn dangos llwyddiant y gweithdai i'w paratoi i'r lefelau disgwyliedig. Dangoswyd hefyd y lefel pasio tro cyntaf yn genedlaethol (ar draws y DU) fel cymhariaeth ar y graff.

Pan fydd methiant yn digwydd, fe fydd ymchwiliad mewnol yn cael ei gynnal i geisio ffeindio'r rheswm dros y methiant. Defnyddir y methiannau yma fel cyfleoedd i adnabod gwendidau yn ein trefniadau ac adnabod ffyrdd i wella. Yn dilyn trafodaethau mewnol gyda'r timau rydym wedi adnabod cwrs a chymhwyster penodol yr hoffem yrru ein technegwyr arno. Mae'r Gwasanaeth yn y broses o edrych ar ffynonnellau i ariannu'r hyfforddiant a'r cymhwyster.

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Darparu strydoedd a thiroedd cyhoeddus glân a thaclus.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-17 : Nifer yr achosion tipio anghyfreithlon fesul 1,000 o'r boblogaeth

### Nifer achosion Tipio Anghyfreithlon







### Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r data yn dangos bod nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon eleni yn is nag yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2025/26 cofnodwyd 330 achos sydd 147 achos yn llai nac yn ystod 2024/25. Mae'r gostyngiad yn rhannol o ganlyniad i ymchwiliadau trylwyr gan y Tîm Gorfodaeth.

Rydym hefyd yn gweld manteision o gydweithio rheolaidd gyda'r uned TG, sy'n sicrhau bod hysbysiadau gan y cyhoedd yn cael eu trosglwyddo i'r swyddogion gorfodaeth yn brydlon. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi swyddogion i archwilio deunydd yn briodol cyn iddo gael ei glirio. O ganlyniad, mae swyddogion yn gallu casglu tystiolaeth gadarn, gan gryfhau achosion llys lle mae troseddwyr yn gwrthod talu Hysbysiad Cosb Benodedig.

Mewn gwirionedd, mae tipio anghyfreithlon yn y Sir, yn digwydd oherwydd ymddygiad canran fach iawn o'n trigolion sy'n dewis troseddu (2.8 achos fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 2025/26). Mae sicrhau erlyniadau yn erbyn y nifer gymharol fach yma o droseddwyr ynghyd â gwneud yn siwr bod pob erlyniad llwyddianus yn cael cyhoeddusrwydd ar wahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn atal mwy o droseddu. Mae hyn yn bendant yn gwneud gwahaniaeth ac mae'n atgyfnerthu'r neges nad ydy trigolion Gwynedd na'r Cyngor yn goddef llygru. Bydd unrhyw droseddwr yn wynebu'r risg o gael eu herlyn yn y llys a derbyn dirwy o £400. Os ydy'r troseddwyr wedi cofrestru gyda Cyfoeth Naturiol Cymru mae posib hefyd iddynt golli trwyddedau cludo gwastraff a cholli eu cerbyd.



Enghreifftiau o'r math o achosion o dipio anghyfreithlon sydd wedi eu clirio eleni gan y gwasanaeth

## GWASANAETH EDRYCHIAD STRYD A TCC - STEVEN EDWARDS

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Darparu strydoedd a thiroedd cyhoeddus glân a thaclus.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-18 : Nifer dyddiau ar gyfartaledd i ymateb i ymholiad Baw Cŵn

### Nifer ymholiadau Baw Cŵn




**Tu ôl i'r perfformiad**

Mae'r graff yn dangos bod nifer yr ymholiadau/cwynion ynglŷn â baw cŵn 2025/26 wedi gostwng eleni o'i gymharu â llynedd sef 99 achos yn llai. Mae'r nifer dyddiau i ymateb i ymholiad baw cŵn wedi gostwng dros y flwyddyn ac erbyn mis Mawrth roedd y nifer dyddiau yn 2.3 ar gyfartaledd.

**Camau ar y gweill:-**

**Dirwyon:** Mae cynnydd wedi bod yn nifer y Hysbysiadau Cosb Penodedig sydd wedi'u cyhoeddi eleni.

**Gorfodaeth**: Mae patrolau rheolaidd yn cael eu cynnal gan swyddogion Gorfodaeth mewn ardaloedd problemus er mwyn monitro cydymffurfiaeth ac ymdrin â throseddau.

**Glanhau strydoedd**: Mae'r gwasanaeth Glanhau Strydoedd yn gwneud cyfraniad pwysig at gynnal glendid y strydoedd ac at leihau problemau baw cŵn.

**Bagiau baw cŵn**: Rydym yn parhau i ddarparu bagiau baw cŵn am ddim drwy lyfrgelloedd, siopau Gwynedd a chyfleusterau hamdden, yn ogystal ag yn uniongyrchol i rai Cynghorau Cymuned.

GWASANAETH EDRYCHIAD STRYD A TCC - STEVEN EDWARDS

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Darparu strydoedd a thiroedd cyhoeddus glân a thaclus.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth


Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-19 : Canran Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi cael eu talu

### Nifer Hysbysiadau Cosb Benodedig




### Math o drosedd




**Tu ôl i'r perfformiad**

Yn ystod 2025/26 roddwyd 108 o Hysbysiadau Cosb Benodedig, sydd 16 yn llai nac ar gyfer 2024/25.

Rydym wedi sicrhau bod 71.3% o'r HCB wedi cael eu talu eleni. Mae hyn yn awgrymu lefel gyson o gasglu taliadau.

Mae nifer yr achosion a ganslwyd wedi gostwng yn sylweddol i 10.2% yn 2025/26 o 26.6% yn 2024/25. Mae hyn o ganlyniad i ymchwiliadau a chasglu tystiolaeth gadarn cyn cyhoeddi HCB.

Mae achosion llys yn dangos amrywiad hefyd, gyda gostyngiad rhwng 2023/24 a 2024/25, ond cynnydd eleni i 3.7%. Mae hyn yn awgrymu bod mwy o achosion yn cael eu hysbysu neu eu gorfodi trwy'r system gyfreithiol.

Er ein bod ni'n bennaf fel gwasanaeth yn ffafrio addysgu pobl, mae gennym hefyd darged incwm i'w gwblhau ac ar hyn o bryd nid oes pryder am ei wireddu.

| Blwyddyn | Nifer | % wedi talu | % wedi canslo | % achos llys | % heb dalu |
|---|---|---|---|---|---|
| 2023/24 | 72 | 72.2% | 25.0% | 2.8% | 0.0% |
| 2024/25 | 124 | 71.0% | 26.6% | 1.6% | 0.8% |
| 2025/26 | 108 | 71.3% | 10.2% | 3.7% | 14.8% |

## GWASANAETH EDRYCHIAD STRYD AC TCC - STEVEN EDWARDS

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Hybu perchnogaeth leol a datblygu ymdeimlad o falchder bro drwy weithio ar lefel cymunedol wrth fagu perthnasau â grwpiau/mudiadau lleol, gwirfoddolwyr a’r trydydd sector.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-20 : Nifer ceisiadau am waith i'r Tîm Tacluso

### Nifer ceisiadau am waith i'r Tîm Tacluso




### Tu ôl i'r perfformiad


Mae gwaith da y tim tacluso ynghyd â'r gwasanaeth glanhau strydoedd yn sicr yn cael ei brofi yn un gwerthfawr wrth edrych ar ganlyniadau'r adroddiad GLÂN diweddar.

Caiff yr adroddiad ei gynnal gan Cadw Cymru'n Daclus sydd cael ei ddefnyddio i fonitro lefelau glendid ar draws awdurdodau lleol, sy'n cael eu mesur yn unol â'r Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Sbwriel (COPLAR).

Ar gyfer 2025 roedd nifer y safleoedd archwilwyd yng Ngwynedd oedd yn cyrraedd y lefel derbyniol yn **64.5%** o'i gymharu â 58.5% yng Nghymru gyfan.

Ar gyfer safleodd wedi eu nodi fel strydoedd roedd canran Gwynedd dderbyniodd Gradd A neu B yn **88.8%** o'i gymharu â 84.7% drwy Gymru.

### Math o geisiadau gwaith i'r Tîm Tacluso



## GWASANAETH BWRDEISTREFOL - AMANDA MURRAY


**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Darparu cyfleusterau glân a diogel i drigolion/ymwelwyr Gwynedd


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## PP-21 : Cyfartaledd dyddiau i gwblhau ymholiad Toiledau Cyhoeddus




### Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r Gwasanaeth Bwrdeistrefol yn gyfrifol am ddarparu a gofalu am 60 o doiledau cyhoeddus ar draws y sir. Yn ogysatal mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am weinyddu ac archwilio 37 o doiledau sydd yn rhan o'r cynllun toiledau cymunedol.

Derbyniodd y gwasanaeth gyfanswm o 217 o ymholiadau yn ystod 2025/26. Mae hyn yn gynnydd bach o 33 o'i gymharu â llynedd.

Mae natur yr ymholiadau yn amrywio yn fawr o holi am oriau agor i gwynion am gyfarpar wedi malu neu wedi ei ddifrodi. Gall yr amser ymateb felly amrywio yn fawr. Gellir adrodd bod oddeutu 29% o'r ymholiadau yn ymwneud â oriau agor, 22% i wneud â toiled diffygiol a 22% arall yn ymwneud â glendid y toiledau.

Ar hyd y flwyddyn mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i ostwng y nifer dyddiau mae'r gwasanaeth yn gymryd i ymateb i gais. Ar gyfer y flwyddyn gyfan roedd y cyfartaledd yn 20 dydd, ond erbyn mis Mawrth **mae'r nifer dyddiau wedi gostwng ar gyfartaledd i 4 diwrnod**. Bydd y gwaith yma yn parhau a bydd y gwasanaeth yn edrych i gyflwyno tabledi i'r arweinyddion tîm i hwyluso'r gwaith o gau ceisiadau yn amserol i'r cwsmer ymhellach.

## GWASANAETH ADEILADU AC ISADEILEDD - GARETH LLOYD WRIGHT

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Cynnal gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid Uned Adeiladu YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd â gofynion y cwsmer i alluogi'r gwasanaeth gyrraedd y targed incwm blynyddol.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## YGC-23 : Cwrdd â tharged ariannol yr Uned Adeiladu

**Cymhariaeth misol Uned Adeiladu**




### Tu ôl i'r perfformiad

Mae perfformiad y timau wedi bod yn dda ar eu prosiectau, gyda tri aelod o staff newydd i'r Uned yn nhimau'r syrfewyr adeiladau a gwasanaethau adeiladau.

Mae gwaith ychwanegol wedi ein cyrraedd yn ddiweddar gan yr Adran Tai ac Eiddo (gan gynnwys gwaith cynnal a chadw a datgarboneiddio) gyda'r timau wrthi yn adolygu'r rhaglen a'r adnodd fydd ei angen.

Mae cyfarfodydd buddiol gyda'r Adran Tai ac Eiddo wedi ei gynnal yn ddiweddar lle bu trafod y rhaglen waith a gyda hyn mewn golwg mae swydd Syrfewr Adeiladau wedi ei hysbysebu.

Mae'r gwasanaeth wedi cyrraedd ei targed ariannol am y flwyddyn 2025/26.

## GWASANAETH BUSNES A CHYFLAWNI PROSIECT - RHYS WYNN WILLIAMS

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Cynnal gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd â gofynion y cwsmer i alluogi'r gwasanaeth gyrraedd y targed incwm blynyddol.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd


## YGC-24 : Cwrdd â tharged ariannol YGC gyfan

**Cymhariaeth misol YGC gyfan**




### Tu ôl i'r perfformiad

Targed 2025-26 yw £8.2 miliwn. Gwnaethpwyd £16k o elw uwchben y targed.
Dyma ein clientiaid eleni




Mae’r llif gwaith ar ddechrau’r flwyddyn ariannol 2026-27 yn gryf iawn. Drwy trafodaethau gyda ein prif gleientiaid mae i weld fod gwaith digonol ar gael am weddill y flwyddyn, ac felly mae proffil y gwaith sydd wedi ei raglennu yn gyson gyda phroffiliau’r blynyddoedd blaenorol.

## GWASANAETH BUSNES A CHYFLAWNI PROSIECT - SION ARWEL JONES


**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Cynnal gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd â gofynion y cwsmer.

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## YGC-25 : Sgôr allan o 10 ar gyfer Bodlonrwydd Cwsmer




### Tu ôl i'r perfformiad

**Asiantaeth Cefnffyrdd**
Mae sgôr Cefnffyrdd wedi aros yn eithaf cyson drwy'r flwyddyn ariannol gyda'r sgôr terfynol wedi cynyddu i 9.4. Derbyniwyd 130 o brosiectau gan yr Asiant yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Sifil**
Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, anfonwyd 210 holiadur allan i'r cleientiaid. Derbyniwyd 24 ymateb. Roedd y mwyafrif o ymatebion yn sgôr o 10, gyda rhai o'r cleientiaid yn rhannu sylwadau cadarnhaol iawn am waith staff YGC.

**Tai ac Eiddo**
Anfonwyd 18 holiadur allan ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r cleient Adran Tai ac Eiddo, derbyniwyd 1 ymateb gyda sgôr o 10 sydd yn gadarnhaol iawn.

**SDC**
Mae holiaduron yn parhau i gael eu hanfon allan gyda phob penderfyniad cais SDC. Yn anffodus, ni dderbyniwyd unrhyw ymateb yn ystod y flwyddyn ariannol.

## GWASANAETH DŴR AC AMGYLCHEDD - ROB WILLIAMS

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Lleihau risg llifogydd i drigolion Gwynedd drwy gynnal Rhaglen Cynnal a Chadw Asedau Arfordirol a Mewndirol y sir mewn modd ddiogel ac amserol.

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## YGC-26 : Canran yr asedau sydd mewn cyflwr boddhaol neu well

| Blwyddyn | 2024/25 | | 2025/26 | |
|---|---|---|---|---|
| Gradd | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| 1. Da iawn | 3 | 1.5% | 13 | 5.4% |
| 2. Da | 68 | 33.7% | 90 | 37.5% |
| 3. Boddhaol | 83 | 41.1% | 95 | 39.6% |
| 4. Gwael | 21 | 10.4% | 17 | 7.1% |
| 5. Gwael iawn | 27 | 13.4% | 25 | 10.4% |
| **Cyfanswm** | **202** | **100.0%** | **240** | **100.0%** |

**Canran asedau mewn cyflwr boddhaol neu well**

**76.2%**
2024/25

**82.5%**
2025/26

Cynnydd o
**6.3%**

**Tu ôl i'r perfformiad**

- Yn 2025 bu i'r uned archwilio 240 o'r 299 o asedau, gyda cynnydd mewn asedau yn sgorio Gradd Targed o 3 neu well.
- Mae rhai asedau/unedau wedi'u hystyried yn anghynaliadwy i'w hatgyweirio ac felly nid ydynt yn cael eu harchwilio, naill a'i oherwydd eu cyflwr neu am eu bod yn rhan o astudiaeth neu gynllun ehangach.
- Mae'r wybodaeth yn y tabl yn crynhoi canlyniadau'r flwyddyn tra yn eu cymharu gyda chanlyniadau 2024/25.
- Rhaglen waith cynnal a chadw wedi ei chyflawni am y flwyddyn ac yn debygol o fod wedi codi sgôr yr asedau eto (dim archwiliad ffurfiol o'r sgôr yn cael ei wneud yn dilyn cwblhau gwaith)
- Mae'r rhaglen wedi cynnwys gwelliannau i strwythurau arfordirol yn Nhywyn, Criccieth, Y Felinheli a Chaernarfon yn ogystal â gwaith i adnewyddu strwythurau ar gyrsiau dŵr yn ardal Bethesda
- Newid yn y canran rhwng y ddwy flynedd yn positif gyda **cynnydd o 6.3%** mewn asedau uwchben y gradd targed o 3.

## GWASANAETH DŴR AC AMGYLCHEDD - ROB WILLIAMS

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Adolygu ceisiadau SDC yn amserol a sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn cwrdd â rheoliadau Llywodraeth Cymru.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## YGC-27 : Canran ceisiadau SDC wedi derbyn penderfyniad o fewn y targed

**Nifer dyddiau i gymeadwyo ceisiadau SDC**




**66**
Nifer Ceisiadau wedi eu cymeradwyo

**80.3%**
Canran wedi eu cymeradwyo o fewn y targed

### Tu ôl i'r perfformiad

Ers y 7fed o Ionawr 2019 mae gofyn statudol yn Nghymru i bob datblygiad newydd o fwy nag 1 tŷ, neu ble mae'r ardal adeiladu yn $100m^2$ neu fwy, i ddarparu systemau draenio cynaliadwy (SDC) ar gyfer rheoli dŵr wyneb.

Mae'n rhaid i gynlluniau SDC gael eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd drwy'r Corff Cymeradwyo SDC, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Bydd bob cais yn cael ei ystyried yn erbyn y safonau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Amser statudol i gymeadwyo cais ydy 7 wythnos neu 49 diwrnod.

Y prif reswm pam nad ydy ceisiadau yn cael eu cymeradwyo o fewn yr amser statudol ydi bod swyddogion yn caniatau mwy o amser i'r ymgeiswyr mewn rhai achosion i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol, yn hytrach na gorfod gwrthod y ceisiadau. Mae'r gwasanaeth yn credu bod hyn yn ffordd well o ran gofal cwsmer er ei fod yn golygu bod cais yn cael ei gymeradwyo yn hwyr.

Yn ychwanegol i'r uchod mae'r gwasanaeth hefyd wedi rhoi barn ar dros 300 o geisiadau cynllunio, yn ymwneud â materion draenio a llifogydd.

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Lleihau risg llifogydd i drigolion Gwynedd drwy gynnal rhaglen waith yn ychwanegol i uwchraddio asedau presennol.

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## YGC-28 : Nifer Cynlluniau Llifogydd wedi cwblhau

| Cynllun | Disgrifiad | Statws |
| --- | --- | --- |
| Groeslon | Dyluniad manwl gan gynnwys gwelliannau i'r cwrs dŵr a cwlfert i leihau'r risg o rwystrau yn yr afon | Parhau ar y rhaglen |
| Prom Y Gogledd Abermaw | Dyluniad manwl ac achos busnes llawn ar gyfer amddiffyn yr arfordir ar gyfer ardal gogledd Prom yn y Bermo | Parhau ar y rhaglen |
| Waunfawr | Dyluniad manwl i liniaru problemau llifogydd yng nghwlfertau Cae'r Waun a Phant y Waun | Parhau ar y rhaglen |
| Gerddi Traphont Bermo | Amddiffyn yr arfordir ar gyfer ardal Gerddi Traphont Abermaw, yn cynnwys morglawdd newydd, system dŵr wyneb ac amddiffyniad lefel eiddo | Rhaglen wedi llithro / Cynydd mewn costau |
| Cadnant Caernarfon | Uwchraddio sgrin ar cwlfert Afon Cadnant, Caernarfon | Wedi cwblhau |
| Bontnewydd | Dyluniad manwl ac achos busnes llawn ar gyfer mesurau lliniaru llifogydd Bontnewydd | Yn ôl ar y rhaglen |
| Hirael | Gwaith adeiladu amddiffynfeydd arfordirol wedi cychwyn ers Mai 2023 | Yn ôl ar y rhaglen |
| Mynydd Llandegai | Dyluniad manwl ac achos busnes llawn ar gyfer ystod o fesurau i leihau'r risg o lifogydd dŵr wyneb a llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin | Yn ôl ar y rhaglen |

**Tu ôl i'r perfformiad**

Mae’r rhan fwyaf o’r gwaith ar gynllun Hirael bellach wedi’i gwblhau. Serch hynny, mae rhai elfennau’n dal i ddibynnu ar gwblhau prosiect cysylltiedig gan Dŵr Cymru.

Yn Abermaw, mae’r gwaith dylunio manwl ar gyfer Promenâd y Gogledd yn parhau i fynd rhagddo’n dda ac yn unol â’r rhaglen. Mae model ffisegol o’r cynllun wedi’i greu yn Imperial College Llundain, a bydd yn cael ei ddefnyddio i asesu unrhyw effaith bosibl ar y risg llifogydd yn sgil y gwaith. Disgwylir i’r cam dylunio manwl gymryd tua dwy flynedd i’w gwblhau.

Gyda Cynllun Gerddi Traphont rydym yn gweithio gyda'r contractwr er mwyn sicrhau nad ydy'r rhaglen yn llithro ymhellach - hyn yn seiliedig ar faint o waith fydd yn bosibl cyn cyfnod yr haf (gan bod angen tynnu y sytem rheoli trffig).

Mae bwriad mynd allan i dendr ar gyfer y cam nesaf yng nghynlluniau Mynydd Llandygai a Bontnewydd fel bod gwaith ar y safleoedd yn dechrau cyn ddiwedd yr haf.

## GWASANAETH DECHNEGOL - OWEN RHYS JONES

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Cynnal pontydd a waliau cynnal ar rwydwaith ffyrdd Gwynedd.


**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## YGC-29 : Canran strwythurau mewn cyflwr boddhaol neu yn well yn seiliedig ar sgôr BCI Cyflwr "derbyniol"

**Canran strythurau ym mhob cyflwr**




| Sgôr BCI | Amrediad Sgôr | Nifer strwythurau | % BCI Cyflwr "derbyniol" |
|---|---|---|---|
| Da Iawn | 90 i fyny | 180 | 24.5% |
| Da | 80 i 89 | 35 | 34.6% |
| Boddhaol | 65 i 79 | 226 | 31.6% |
| Gwael | 40 i 64 | 122 | 9.0% |
| Gwael iawn | o dan 39 | 51 | 0.3% |
| **Cyfanswm** | | | **100.0%** |

### Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r data yma yn crynhoi cyflwr ein stoc pontydd ffyrdd yng Ngwynedd. Rydym yn gyfrifol am 631 o bontydd ffyrdd i gyd.

Defnyddir y dangosydd sgôr BCI (Bridge Condition Index) er mwyn darganfod cyflwr ein pontydd ffyrdd.

Mae'r sgôr hwn yn deillio o'r data yn dilyn yr archwiliad diweddaraf ar ein pontydd ac yn ystyried holl elfennau'r strwythur .

Ystyrir bod strwythur mewn cyflwr boddhaol os yw'r sgôr BCI yn fwy na 65.

Ar y cyfan mae stoc pontydd ffyrdd Gwynedd yn dda gyda 91% gyda sgor o 65 neu uwch.

Bydd adolygiad o'r holl strwythurau sydd wedi sgorio yn îs yn cael ei gynnal gan beiriannydd, a bydd unrhyw bryder sy'n codi yn derbyn asesiad arbennig, a gwaith adfer priodol.

Ar gyfer strwythurau ble mae materion mwy yn cael eu darganfod, byddant yn cael eu rheoli o dan y safon ar gyfer rheoli strwythurau is-safonol hyd nes fod datrysiad yn bosib.

## GWASANAETH DEHNEGOL - OWEN RHYS JONES

**Pwrpas y Gwasanaeth** :
Cynnal pontydd a waliau cynnal ar rwydwaith ffyrdd Gwynedd.

**Blwyddyn** 2025/26

**Mis** Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

## YGC-30 : Canran o'r archwiliadau pontydd ffyrdd wedi eu cwblhau

| Archwiliadau Pontydd | Nifer i'w archwilio | Nifer wedi eu harchwilio hyd yma | % wedi i'w archwilio |
|---|---|---|---|
| Arfon Dosbarth 1 a 2 | 52 | 52 | 100.0% |
| Dwyfor Dosbarth 1 a 2 | 65 | 65 | 100.0% |
| Meirionnydd Dosbarth 3 a Di-ddosbarth | 251 | 251 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **368** | **368** | **100.0%** |

**Tu ôl i'r perfformiad**

Rydym fel gwasanaeth yn gyfrifol am raglen archwilio a chynnal pontydd ffyrdd Gwynedd.

Rydym yn archwilio 631 o bontydd dros raglen o ddwy flynedd .

Mae rhaglen archwiliadau eleni o 368 o bontydd wedi eu cwblhau fel y gwelir yn y tabl.